Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

The Voice of Community and Town Councils in Wales

# Dogfen Gwybodaeth Digidol:

# Windows 10 – Cefnogaeth yn Dod i Ben

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Cyhoeddi | Mai 2024 | Date Issued | May 2024 |
| Dyddiad Adolygu | Mai 2025 | Review Date | Mai 2025 |

# Dogfen Gwybodaeth: Cefnogaeth yn Dod i Ben ar gyfer Windows 10


Trosolwg ..... 3

Cam 1: Asesu ..... 3

Cam 2: Cynllunio ..... 4

a. Uwchraddio i Windows 11 pan mae'r peiriannau yn gydnaws. ..... 4

b. Prynu Peiriannau Newydd ..... 4

c. Systemau Gweithredu Eraill ..... 5

Cam 3. Gweithredu ..... 5

# Trosolwg

Cyhoeddodd Microsoft y bydd cefnogaeth i Systemau Gweithredu Windows 10 Home a Pro ar gyfer cyfrifiaduron yn dod i ben ar 14 Hydref 2025. Wedi’r dyddiad hwn, ni fydd Microsoft mwyach yn darparu diweddariadau diogeledd na chefnogaeth dechnegol ar gyfer Windows 10. Er y bydd cyfrifiaduron Windows 10 presennol yn parhau i weithio, byddai’n well i gynghorau gynllunio i ddechrau symud oddi wrth Windows 10 erbyn y dyddiad hwnnw i osgoi risgiau gweithredol a diogeledd allai gael eu hachosi trwy ddefnyddio System Weithredu heb gefnogaeth.

Dylid rhoi ystyriaeth i bob peiriant sy’n eiddo i’r cyngor neu’n cael ei reoli’n uniongyrchol ganddo. Hefyd, dylid cynghori cynghorwyr sy’n defnyddio eu hoffer eu hunain ar gyfer gwaith y cyngor i gynllunio ar gyfer y dyddiad hwn pan ddaw cefnogaeth i ben.

Mae **tri cham** er mwyn rheoli’r newid hwn yn gywir.

# Cam 1: Asesu

Dylai cynghorau ddechrau trwy asesu eu hoffer presennol:

- **Stocrestr** Dylech greu stocrestr o bob peiriant sy’n defnyddio Windows 10 o fewn y sefydliad. Er mwyn gwirio pa fersiwn o Windows sy’n cael ei defnyddio edrychwch yn **Gosodiadau -> System** (**Settings** -> **System).**
- **Gwiriwch** Gwnewch y gwiriadau canlynol ar gyfer pob peiriant
    - **Gwirio Cydnawsedd Windows 11**: Mae Microsoft yn cynnig uwchraddiadau rhad ac am ddim i Windows 11 ar gyfer peiriannau sy’n bodloni’r holl fanylebau technegol. Mae gan Microsoft ap Gwiriad Iechyd Cyfrifiadur y gellir ei ddefnyddio i benderfynu a yw caledwedd presennol yn bodloni gofynion system Windows. Mae manylion ar gael yma (PC Health Check). Efallai y bydd angen uwchraddio cydrannau penodol ar beiriannau megis cardiau cof neu graffeg er mwyn bodloni gofynion system Windows 11, efallai y bydd angen gwneud rhai newidiadau cyflunio, neu efallai y byddant yn anghydnaws.
    - **Cydnawsedd Cymwysiadau**: Byddai hyn yn anarferol i Gynghorau Cymuned a Thref ond os yw sefydliadau’n defnyddio cymwysiadau a gynlluniwyd yn benodol ar eu cyfer nhw, efallai na fyddant yn gweithio ar Windows 11 neu systemau gweithredu eraill. Gall cymwysiadau y mae cynghorau yn eu defnyddio fod mewn meysydd fel pecynnau ariannol, rheoli cyfleusterau, neu weinyddu claddedigaethau. Dylid gwerthuso’r cymwysiadau yn unigol.

    - **Gwybodaeth am Werthwyr**: Cysylltwch â gwerthwyr meddalwedd i holi am gydnawsedd gyda Windows 11 ac a fyddai angen diweddariadau.
    - **Profi â Llaw**: Profwch y cymwysiadau meddalwedd sydd gennych trwy eu gosod ar gyfrifiadur Windows 11 os oes un ar gael. Gwiriwch am unrhyw broblemau cydnawsedd, megis chwalfeydd, camgymeriadau, neu nodweddion sydd ar goll.

# Cam 2: Cynllunio

Wedi cwblhau'r asesiad, gall cynghorau ystyried y dewisiadau canlynol ar gyfer peiriannau sy'n defnyddio Windows 10:

## a. Uwchraddio i Windows 11 pan mae'r peiriannau yn gydnaws.

**O Blaid:**

- **Pontio Di-dor**: Mae uwchraddio peiriannau presennol Windows 10 yn sicrhau parhad.
- **Mynediad at Nodweddion Newydd:** Mae Microsoft yn honni fod Windows 11 yn cynnig gwell perfformiad, teclynnau, a rhyngwyneb ffres.
- **Uwchraddio Rhad ac am Ddim**: Gall cyfrifiaduron Windows 10 cymwys uwchraddio'n rhad ac am ddim i Windows 11.

**Yn Erbyn:**

- **Pethau i'w Dysgu**: Efallai y bydd angen amser ar staff i addasu i'r rhyngwyneb newydd.

## b. Prynu Peiriannau Newydd

**O Blaid:**

- **Caledwedd Newydd**: Mae uwchraddio i beiriannau newydd yn sicrhau cydnawsedd gyda Windows 11.
- **Gwarant a Chefnogaeth**: Mae offer newydd yn cynnwys gwarantau a chymorth technegol.

**Yn Erbyn:**

- **Cost**: Mae prynu peiriannau newydd yn gallu bod yn ddrud.
- **Mudo**: Bydd angen mudo mynediad at gymwysiadau a ffeiliau presennol i'r peiriannau newydd.
- **Effaith Amgylcheddol**: Meddyliwch am gynaliadwyedd wrth brynu caledwedd newydd.

Mae peiriannau wedi'u hadnewyddu yn gallu bod yn ddewis mwy cost-effeithiol a chynaliadwy.

## c. Systemau Gweithredu Eraill

Mae Systemau Gweithredu eraill ar gael ar gyfer cyfrifiaduron sy'n rhedeg Windows 10 ar hyn o bryd. Darperir rhai o'r rhain trwy drefniant cymunedol (a elwir fel arfer yn drefniant Ffynhonnell Agored) yn rhad ac am ddim. Ymhlith y prif enghreifftiau mae Ubuntu Linux a Chrome OS Flex.

Gall y trefniadau eraill hyn gynnig rhai manteision ar Windows 10 gan ddibynnu ar sut mae cynghorau yn gweithio a gall fod yn ffordd o ymestyn oes eich offer presennol. Fodd bynnag, mae gan drefniadau o'r math oblygiadau cymhleth o ran cefnogaeth fydd yn creu nifer o risgiau i sefydliadau bychain. Nid yw'n drefniant a argymhellir ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

*Rhoddir amlinelliad o'r ystyriaethau ar gyfer y dewis hwn isod. Mae'n anochel fod rhai termau technegol yn cael eu defnyddio. Os nad ydych yn gyfarwydd â'r termau hyn, nid yw hwn yn ddewis y dylech ei ystyried.*

**O Blaid:**

- **Gwe-Ganolog**: Mae llawer o systemau gweithredu amgen yn addas ar gyfer sefydliadau sy'n ddibynnol iawn ar gymwysiadau ar y we.
- **Dewisiadau Amrywiol**: **Ysgafn a Diogel**: Gall dosbarthiadau Linux a Chrome OS Flex gynnig symlrwydd, diogeledd, ac amserau cychwyn cyflym.

**Yn Erbyn:**

- **Cymorth Cyfyngedig:** Fel arfer, nid yw systemau gweithredu Ffynhonnell Agored yn cael eu cefnogi gan sefydliadau masnachol. Byddai angen i staff y cyngor feddu ar sgiliau technegol cryf iawn i gefnogi'r trefniant hwn.
- **Pethau i'w Dysgu**: Byddai angen hyfforddi staff i allu defnyddio system weithredu wahanol.
- **Cydnawsedd Cymwysiadau**: Efallai na fydd rhai meddalwedd arbenigol ar gael ar gyfer systemau gweithredu gwahanol.
- **Cydnawsedd gyda Pheiriannau Allanol a Pherifferolynnau:** Nid yw llawer o beiriannau allanol fel argraffwyr a sganwyr yn cael eu cefnogi gan systemau gweithredu ac eithrio Windows a MacOS Apple.
- **Gweithrediad Oddi Ar-lein Cyfyngedig**: Mae rhai systemau gweithredu megis Chrome OS Flex yn dibynnu'n drwm ar gysylltiad rhyngrwyd.

# Cam 3. Gweithredu

Dylid ystyried yr eitemau canlynol fel rhan o weithredu'r cynllun adfer.

- **Gweithredu'n Syth**: Gweithredwch yn gynnar er mwyn cael amser i gyflwyno trefniadau newydd cyn i gefnogaeth Windows 10 ddod i ben. Awgrymir eich bod yn cychwyn yn yr Haf 2024

- **Cyllideb**: Dylech gynnwys costau ar gyfer uwchraddiadau, peiriannau newydd, neu newidiadau eraill yng nghyllideb y cyngor. Dylai uwchraddiadau cof posib gostio llai na £100. Dylai gliniadur wedi'i adnewyddu yn addas at ddefnydd y cyngor gostio llai na £500. Hydref 2024 Yn barod ar gyfer ei gymeradwyo yn y gyllideb 2025
- **Cyfathrebu**: Rhowch wybod i staff, cynghorwyr, a budd-ddeiliaid am y cynllun pontio. Yn gynnar yn 2025 ond gellir ei ddechrau yn y camau blaenorol,

Os oes unrhyw bryderon neu ymholiadau am y nodyn hwn, mae croeso ichi gysylltu â Justin Horrell jhorrell@unllaiscymru.cymru.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**